

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at County Hall, Usk with Remote Attendance on Dydd Llun, 26ain Gorffennaf, 2021 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor T.Thomas (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: C.Edwards, M.Groucutt,
D. Jones, M.Lane and M. Powell

in attendance County Councillors:

APOLOGIES: Councillors J.Watkins

Officers in Attendance

Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid
Emma Davies, Swyddog Perfformiad

1. Datganiadau o Fuddiant

Cytunodd y pwyllgor i gofnodi unrhyw ddatganiadau buddiant fel y bo'n briodol wrth drafod yr adroddiadau.

2. Monitro'r Gyllideb

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac lechyd yr adroddiad, gan dynnu sylw aelodau at adrannau perthnasol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â Gwasanaethau Plant. Dywedodd y swyddog fod y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn wedi gwella'n sylweddol, o ystyried derbyn grant Llywodraeth Cymru ar gyfer costau COVID-19 a hefyd oherwydd arbedion yn codi o staff yn gweithio gartref a sawl swydd wag. Dywedodd hefyd fod arbedion wedi'u cyllidebu wedi'u cyflawni, tra bod pwysau yn y Gwasanaethau Plant sy'n ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn parhau. Roedd y dyfarniad cyflog uwch hefyd wedi cael effaith ar y sefyllfa gyllidebol. Esboniodd y tîm lleoli amlasiantaethol yn y Gwasanaethau Plant (MIST) a dywedodd fod y gwasanaeth hwn wedi cyflawni'r arbedion a ragwelwyd. Mae yna orwariant o hyd yn bennaf oherwydd y costau cysylltiedig â Phlant sy'n Derbyn Gofal.

Cyflwynodd y rheolwr Cyllid ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ei rhan hi o'r adroddiad, gan fynd ag aelodau trwy adrannau perthnasol, gan esbonio'r elfennau sy'n ymwneud â chyllidebau canolog. Mae gorwariant yn ymwneud i raddau helaeth â phlant sydd angen darpariaeth arbenigol. Tynnodd sylw at y sefyllfa sy'n ymwneud â mantolau ysgolion a rhoddodd esboniad am ddiffygion.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad cynhwysfawr o'r adroddiad a gwahoddodd gwestiynau gan y pwyllgor, fel a ganlyn:

Her Aelod:

Cyhoeddodd y Cynghorydd Martyn Groucutt fuddiant personol nad yw'n rhagfarnus fel Llywodraethwr Ysgol Gyfun y Brenin Harri a dywedodd ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Llandeilo Bertholau.

- Rwy'n falch o weld y cymorth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r Cyngor yn ystod y pandemig. Hoffwn weld llif cyllido tymor hwy, oherwydd rwy'n cydnabod yr effeithiau ar ysgolion o ran cyllidebu. Mae'n rhyddhad i mi weld nad ydym yn ceisio dod o hyd i bethau i wario arian grant arnynt ond rwy'n credu y gallai gael ei gynllunio'n well.

Rwy'n deall eich pryderon ac er bod croeso i'r arian, gellir ei ddefnyddio'n well os gellir cynllunio ei ddefnydd.

- Mae fy nghwestiwn mewn perthynas â thudalen 32 yr adroddiad a'r tabl sy'n dangos gwelliant mewn rhai ysgolion o gymharu ag eraill. A oes gormodedd gan ysgolion o ganlyniad i dderbyn grantiau? A allech chi gynnig esboniad.

Rwy'n credu ei bod yn ddefnyddiol cydnabod bod ysgolion â diffygion strwythurol ar ddechrau'r flwyddyn, gyda Chas-gwent yn enghraifft. Roedd gan Gas-gwent gynllun adfer ar waith ac roedd yn gwneud cynnydd, ond gohiriwyd ailstrwythuro am flwyddyn oherwydd COVID-19, ac mae hynny'n golygu, hyd yn oed gydag arian grant, nad yw ei safle lle byddai wedi eisiau bod, pe bai'n gallu parhau ei thaith ar ei chynllun adfer. Mae hyn yr un peth ar gyfer ysgolion eraill,

a allai fod wedi parhau â'u cynlluniau adfer neu beidio. Rhagnodwyd y grantiau gan Lywodraethau Cymru gan ystyried maint yr ysgol yn bennaf ac mae hyn yn rhywbeth nad oeddem yn gallu effeithio arno.

Cyhoeddodd y Cynghorydd Maureen Powell fuddiant personol nad yw'n rhagfarnus fel Llywodraethwr Ysgol Gyfun y Brenin Harri cyn gofyn;

- **Mae gen i bryder y gallai plant a gafodd eu gwahardd yn ddigidol ar ddechrau'r pandemig, ac efallai nad oeddent wedi cael cefnogaeth gartref i barhau i ddysgu gartref, fod wedi cwmpo ar ôl. A ellir defnyddio unrhyw ran o'r arian hwn i'w cefnogi?**

Gellir, gellir defnyddio'r grantiau i gefnogi'r plant hyn ac mae ysgolion yn ystyried nawr sut orau i gefnogi'r plant hyn i sicrhau nad oes neb ar ei hôl hi.

- **Nodais eich sylw am y dyfarniad cyflog yn fwy na'r 1% a gynlluniwyd. A yw'r 1% yn dal i gael ei ystyried ar gyfer dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, gan y bydd hyn yn cael effaith ar gynllunio cyllidebol?**

Mae hyn yn dal i gael ei drafod, ond rwy'n cydnabod eich pryder.

Casgliad y Cadeirydd:

Hoffwn ddiolch i'r swyddogion am adroddiad manwl ar sefyllfa canlyniad referniw a chyfalaf ac am ateb ein cwestiynau. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar am yr esboniad cryno o'r materion cyllidebol allweddol yn y meysydd gwasanaeth sy'n dod o fewn ein cylch gwaith. I grynhoi, rydym yn falch bod arian grant yn cael ei ddefnyddio'n dda ac rydym yn cydnabod bod rhai plant wedi dioddef yn fawr yn ystod y pandemig. Rydym yn cydnabod mai ysgolion sy'n penderfynu, ond byddem yn gobeithio bod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rhai mwyaf anghenus. Gellid gweld bod y ffigurau hyn yn cuddio sefyllfa heriol, ond rydym yn falch bod yr arian wedi'i roi inni i gynorthwyo gyda chostau sy'n ymwneud â COVID-19.

3. Monitro'r Perfformiad

Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adroddiad hwn wedi'i ddwyn gerbron y pwyllgor dethol i alluogi aelodau i ystyried cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei bum nod blaenoriaeth fel y'u nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd.

Esboniodd y swyddog strwythur yr adroddiad ac eglurodd sut mae'r gweithredoedd yn gysylltiedig â'r nodau ac yn benodol byddai'r ffocws ar y meysydd sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor, Atodiad 2 gan ddarparu diweddariad cynnydd.

Esboniodd y swyddog fod y pandemig wedi arwain at ychydig o oedi ar brosiectau a bod rhywfaint o waith wedi cael ei oedi dros dro, wrth i'r Cyngor ganolbwyntio ei sylw ar ddarparu gwasanaethau allweddol mewn cyfnod heriol. Mae gan y cyngor Strategaeth Coronafeirws a fabwysiadwyd gan y cabinet ac sydd wedi sicrhau bod gweithgareddau wedi'u canolbwyntio a'u cydlynu. Bu'n

rhaid i'r cyngor ymateb i'r pandemig a rhoi mentrau ar waith i gefnogi pobl a rhai o'r gweithgareddau arwyddocaol hyn yw:

- Y cynnydd mewn dysgu digidol a chyfunol i sicrhau y gallai plant gael mynediad at ddysgu yn ystod cau ysgolion
- Cyfarfodydd Cymorth i Deuluoedd mewn lleoliadau awyr agored
- Ffrindiau Dydd Gwener o Bell ~ Menter Ymgysylltu er mwyn Newid Cyngor Ieuenctid Sir Fynwy i alluogi pobl ifanc i gwrdd a siarad
- Roedd y prosiect symudiad ~ yn cefnogi 100 o bobl ifanc wyneb yn wyneb ac yn ddigidol a oedd ag iechyd meddwl a lles gwael
- Sesiynau chwarae mynediad agored yn yr awyr agored yn ystod gwyliau'r Pasg i 1100 o blant a phobl ifanc
- Hybiau gweithgaredd MonLife yn y 4 canolfan hamdden a oedd yn lletya 4200 o bobl ifanc
- Cynllun chwarae haf wedi'i gynnal mewn 3 safle ledled y sir i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i blant ag anableddau

Fel rheol byddai'r adroddiad yn cynnwys dangosyddion perfformiad cenedlaethol a fyddai'n ein galluogi i dynnu cymariaethau â chynghorau eraill, fodd bynnag, mae'r pandemig wedi arwain at gasglu gwybodaeth annigonol i allu meincnodi i ddadansoddi perfformiad, er ein bod wedi casglu pa ddata sydd ar gael a darparu esboniad. Bydd yr adroddiad ar gynnydd yn erbyn y pum nod yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref.

Diolchodd y cadeirydd i'r Swyddog Perfformiad a Gwella am y cyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau gan aelodau.

Her Aelod:

- Mae fy sylw mewn perthynas â phwyntiau gweithredu yn yr adroddiad, yn enwedig y Cludiant Cartref i'r Ysgol a'r Llwybrau Diogel i'r Ysgol ~ rwy'n credu bod y rhain yr un peth a dylid eu cyfuno.

Rwy'n cytuno ac mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei ddatblygu, o ystyried ein bod ym mlwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol hwn.

- Mae'r adroddiad yn cyfeirio at adolygu a datblygu strwythurau arweinyddiaeth ar draws ysgolion fel Cymin a Llandogo ac wrth inni symud ymlaen, credwn fod angen inni edrych ar gyfuno strwythurau arweinyddiaeth o ran rheolaeth, ond hefyd o ran cyrff llywodraethu, yr enghraifft yw'r Fenni a'r cynigion ar gyfer "ysgol pob oedran" newydd, er mwyn sicrhau bod y trawsnewid mor llyfn â phosibl.

Diolch am y cwestiwn a'ch sylw sy'n un teg. Mae yna sawl ysgol lle mae gennym drefniadau arweinyddiaeth partneriaeth a chredaf fod hwn yn sylw teg iawn ac yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei wneud yn y dyfodol.

- **Mae'r adroddiad yn cyfeirio at arian yn cael ei wario i wella llwybrau teithio i ysgolion mewn trefi. Nid wyf yn siŵr sut mae'r rhain yn cael eu gwella ac a yw hwn yn gwestiwn i MonLife.**

Derbyniwyd arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Teithio Gweithredol a hefyd Llwybrau Mwy Diogel ac ystyriaethau newid yn yr hinsawdd ond oherwydd gwledigrwydd y sir, bydd angen i rai plant gael mynediad i'r ysgol ar fws, felly mae hyn yn rhywbeth y mae MonLife yn gweithio arno ar hyn o bryd.

- **Rwy'n cofio menter mewn ardal arall o'r enw 'Bysiau Cerdded' lle mae plant yng nghwmni ei gilydd a phlant hŷn i deithio i'r ysgol. Nid wyf yn siŵr a fyddai hyn yn ymarferol yn ein sir.**

Mae'r cynlluniau 'Bws Cerdded' yn ddiddorol iawn a byddwn yn eu hystyried ond mae angen i ni ddod o hyd i ddulliau sy'n addas i bob ysgol yn unigol.

Casgliad y Cadeirydd:

Hoffwn ddiolch i chi am baratoi'r adroddiad hwn ac am fewnbwn y Prif Swyddog. Cododd dau bwynt gan aelodau heddiw o ran uno'r camau sy'n ymwneud â Thrafnidiaeth Gartref i Ysgol a Llwybrau Diogel i Ysgolion a hefyd y sylwadau ynghylch datblygu'r trefniadau rheoli a llywodraethu o amgylch ysgolion ag arweinyddiaeth ar y cyd. Nid oes unrhyw argymhellion penodol eraill y mae aelodau am eu gwneud, felly rwy'n fodlon bod y pwyllgor yn fodlon â pherfformiad y meysydd sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor hwn.

4. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

The meeting ended at **10.50 am**